
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

# Cymru Wales

**Tywod euraid Gŵyr**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gofalu am fwy na 780 milltir (1,255km) o arfordir y DU i bawb gael ei fwynhau nawr ac yn y dyfodol. Mae traethau ysblennydd i'w cael ar hyd arfordir Cymru, gan gynnwys Rhosili, gyda'i filltiroedd o dywod euraid a gweddillion llongddrylliad o'r 19eg ganrif i'w gweld pan fo'r llanw'n isel. Trowch i dudalen 429.




# Aberdulais

ger Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot, Morgannwg SA10 8EU

1980

Roedd dŵr o Afon Dulais a'r rhaeadr yn pweru diwydiannau ymhell cyn y Chwyldro Diwydiannol, wrth i Aberdulais sefydlu ei hun fel un o'r safleoedd diwydiannol cynharaf ym Mhrydain, gan ddefnyddio technolegau arloesol i ddatblygu'r diwydiannau a newidiodd y byd; o dunplat i gopr.

**Llywio â lloeren**: cod post yn camgyfeirio, dilynwch yr arwyddion brown.
**Parcio**: 50 llath.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn ar dennyn (gan gynnwys y tu mewn i'r adeiladau).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01639 636674 neu aberdulais@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/aberdulais**

Aberdulais

Trefniadau agor heb eu cadarnhau adeg argraffu. Holwch cyn ymweld, os gwelwch yn dda.

# Abereiddi i Abermawr

Abereiddi, ger Mathri, Sir Benfro SA62 6DT 1975

Darn o arfordir gwyllt â thraethau, coetir, morlyn glas a gweddillion hen chwarel. **Sylwch**: nid oes maes parcio Ymddiriedolaeth Genedlaethol na chyfleusterau. Ar gyfer llywio â lloeren, defnyddiwch SA62 6DT.

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu abereidditoabermawr@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/abereiddi-to-abermawr**

# Bae Barafundle

ger Ystagbwll, Sir Benfro 1965

Bae bychan, arunig yn cefnu ar dwyni a choedwig llonydd, cysgodol braf, gyda thywod euraid byd-enwog a dŵr clir fel grisial. Dim ond ar droed y gellir cyrraedd y bae ac mae 1/2 milltir ar hyd llwybr yr arfordir. **Sylwch**: grisiau a thir anwastad. Dim ond ar droed y gellir cyrraedd yno. Toiledau agosaf yng Nghei Ystagbwll.

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu barafundlebay@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/barafundle-bay**

# Bannau Brycheiniog

Powys

1947

Mae'r Bannau Canolog ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi swyno ymwelwyr ers cannoedd o flynyddoedd gyda'u copaon uchel, gan gynnwys Pen-y-fan, mynydd uchaf de Prydain. Mae'r dirwedd drawiadol hon yn berffaith ar gyfer cerdded bryniau ac archwilio. Gallwch ddarganfod coetiroedd hynafol Glyn Tarell Uchaf, troedio'r 'Begwns' i gael golygfeydd panoramig tua Bannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Duon, neu grwydro ymhellach i'r gogledd i ddarganfod gweundiroedd eang ac anghysbell Comin Abergwesyn.

**Parcio**: mae'r prif faes parcio ym Mhont ar Daf, oddi ar yr A470 (ceir meysydd parcio eraill, ond nid yw pob un yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o dda byw a bywyd gwyllt, megis adar sy'n nythu ar y tir).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01874 625515 neu brecon@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/brecon-beacons**

# Castell a Gardd Penrhyn

Bangor, Gwynedd LL57 4HT

1951

Castell neo-Normanaidd anferth yw Castell Penrhyn, ac mae'n sefyll o fewn 60 erw o erddi a choetir. Fe'i codwyd i greu argraff ac mae'n edrych allan ar Eryri ac arfordir gogledd Cymru. Mae ffasâd cerrig trawiadol y Castell yn cuddio mwy na'i adeiladwaith brics coch. Y tu mewn, ceir cerflunwaith a dodrefn coeth a gallwch ddysgu am gysylltiadau Penrhyn â chaethwasiaeth, y diwydiant llechi a'r anghydfod diwydiannol chwerw a newidiodd berthynas Penrhyn â'r gymuned leol am byth. Y tu allan, ceir gardd furiog gyda ffowntenni a phlanhigion, a Gardd Gors jynglaidd.

**Parcio**: 500 llath. Man gwefru cerbydau trydan yn y prif faes parcio, ychydig cyn cyrraedd y dderbynfa ymwelwyr.

**Sgôr ôl pawen**: **Da** – croeso i gŵn ar dennyn ar y tir ac yn y caffi (cŵn tywys yn unig yn y castell).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 353084 neu penrhyncastle@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/penrhyn-castle**

| Castell Penrhyn | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Castell** | | | | | | | | |
| 1 Maw–3 Tach | 10–4* | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Yr Ardd a'r Ceginau Fictoraidd** | | | | | | | | |
| 6 Ion–11 Chwe** | 11–3 | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 12 Chwe–3 Tach | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 9 Tach–15 Rhag** | 10–4 | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 16 Rhag–22 Rhag | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 27 Rhag–31 Rhag | 10:30–3:30 | **Ll** | **M** | · | · | **G** | **S** | **S** |
| **Y caffi a'r siop** | | | | | | | | |
| 10 Chwe–3 Tach | 10:30–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Tach–15 Rhag | 10:30–4 | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 16 Rhag–22 Rhag† | 10:30–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 27 Rhag–31 Rhag† | 10:30–3:30 | **Ll** | **M** | · | · | **G** | **S** | **S** |

*Mynediad olaf awr cyn amser cau. **Ceginau Fictoraidd: ar gau 6 Ionawr tan 9 Chwefror, a 9 tan 29 Tachwedd. †Trefniadau agor yn gallu amrywio.

# Castell a Gardd Powis

Y Trallwng, Powys

1952

Adeiladwyd y castell yn ystod y 13eg ganrif gan un o dywysogion Cymru, a daeth i feddiant y teulu Herbert yn y 1570au. Aeth y teulu ati i newid Powis o fod yn gaer ar y goror i fod yn blasty aristocrataidd, a gafodd ei oes aur ar ddechrau'r 20fed ganrif, pan fu Tywysog a Thywysoges Cymru ymhlith y llu o westeion pwysig a gafwyd yno. Mae'r tu mewn yn adlewyrchu'r cyfnodau o Oes Elizabeth i'r cyfnod Edwardaidd, ac fe geir yno ffabrigau addurnol, paentiadau o'r radd flaenaf, dodrefn, tapestrïau a chasgliad y teulu Clive o eitemau o dde Asia. Gyda golygfeydd ar draws Dyffryn Hafren, mae'r ardd fyd-enwog yn dal i gynnwys llawer o'i nodweddion gwreiddiol. Ceir terasau Eidalaidd o'r 17eg ganrif â borderi blodau ar eu hyd, coed yw sy'n ymestyn 30 troedfedd i'r awyr, a gardd ffurfiol sydd â gwelyau rhosod a choed afalau sy'n ganrif oed, ac ardal goetir dawel. **Sylwch**: gall gwaith adeiladu hanfodol effeithio ar amseroedd agor y castell (gwiriwch cyn ymweld).

**Llywio â Lloeren**: defnyddiwch 'Powis Castle and Garden' (mae'r cod post yn camgyfeirio). **Parcio**: ar y safle, 200 llath o'r castell a'r ardd. Dau fan gwefru cerbydau trydan.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – cŵn cymorth yn unig o 1 Mawrth tan 31 Hydref. Mae croeso i gŵn ar dennyn byr yn yr ardd rhwng 1 Tachwedd a 31 Rhagfyr.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01938 551920 neu powiscastle@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/powis**

| Castell Powis | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Castell** | | | | | | | | |
| 1 Ion–31 Rhag* | 11–4** | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Yr ardd, y caffi a'r siop** | | | | | | | | |
| 1 Ion–31 Maw | 10–4† | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 1 Ebr–30 Med | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 1 Hyd–31 Rhag* | 10–4† | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Popeth ar gau 25 a 26 Rhagfyr. **Y castell: mynediad drwy docyn amser penodol; oherwydd gwaith hanfodol, mae'n bosib y bydd yr ymweliadau'n rhai tywysedig a threfniadau agor yn amrywio. †Siop: 8 Ionawr tan 9 Chwefror, ar agor ar benwythnosau yn unig, am 11; 4 Tachwedd tan 31 Rhagfyr, agor am 11.

# Castell Cilgerran

ger Aberteifi, Sir Benfro
SA43 2SF 1938

Castell o'r drydedd ganrif ar ddeg uwchlaw Ceunant Teifi. Gallwch gerdded ar hyd y muriau a chael golygfa ddi-dor am filltiroedd i bob cyfeiriad. **Sylwch**: dan warchodaeth Cadw – gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae croeso i gŵn, ond rhaid eu cadw ar dennyn.

**Am ragor o wybodaeth**:
0300 025 2239 neu
cilgerrancastle@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/cilgerran-castle**

# Castell y Waun

Y Waun, Wrecsam, Clwyd LL14 5AF

1981

Cafodd Castell y Waun ei gwblhau gan Roger Mortimer, un o Arglwyddi'r Gororau, ym 1310, a dyma'r castell olaf yng Nghymru o deyrnasiad Edward I y mae rhywun yn dal i drigo ynddo hyd heddiw. Ceir yma dyrau a dwnsiynau canoloesol, ystafelloedd y teulu Myddelton sy'n dyddio'n ôl i'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, a gallwch ddysgu am stori'r Arglwydd Howard de Walden, y tenant a'r polymath dylanwadol o'r ugeinfed ganrif. Mae'r ardd odidog yn cynnwys yw wedi'u tocio, borderi blodau a chreigerddi. Ceir teras sy'n edrych allan dros wastadeddau Swydd Gaer a Swydd Amwythig, ac mae'r ystad fawr, a rennir gan Glawdd Offa, yn darparu cartref i greaduriaid di-asgwrn-cefn prin, blodau gwyllt a choed hynafol.

**Parcio**: ar Fferm yr Ystad ger y swyddfa docynnau, tua 220 llath ar hyd allt serth

at y castell. Man gwefru cerbydau trydan ar Fferm yr Ystad

**Sgôr ôl pawen**: **Da** – Croeso i gŵn ar dennyn ar yr ystad (cŵn cymorth yn unig y tu mewn i'r castell, ac yn y gerddi, Coedwig y Parc Difyrrwch a'r Ardd Gegin).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01691 777701 neu chirkcastle@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/chirk**

| Castell y Waun | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Castell** | | | | | | | | |
| 2 Ion–7 Ion | 11–4 | · | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 4 Maw–3 Tach | 12–4* | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 7 Rhag–31 Rhag** | 11–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Gerddi, Tŵr Adam, siop a chaffi** | | | | | | | | |
| 2 Ion–7 Ion | 10–4 | · | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 13 Ion–4 Chwe | 10–4 | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 5 Chwe–3 Tach | 10–4† | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 9 Tach–1 Rhag | 10–4 | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 7 Rhag–31 Rhag** | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Ebrill – Medi, cau am 4:30.
**Ar gau 25 a 26 Rhagfyr. †Ebrill – Medi, cau am 5.

# Castell Ynysgynwraidd

Ynysgynwraidd, ger y Fenni, Sir Fynwy NP7 8UH 1936

Gweddillion castell o ddechrau'r 13eg ganrif, a godwyd yn ymyl Afon Mynwy er mwyn gallu rheoli un o'r prif lwybrau o Loegr. **Sylwch**: dan warchodaeth Cadw – gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

**Am ragor o wybodaeth**: 01874 625515 neu skenfrithcastle@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/skenfrith**

# Cei Ystagbwll

Ystagbwll, Sir Benfro SA71 5LS

1934

Cilfach fechan a warchodir gan gei gwaith cerrig hanesyddol. Adeiladwyd yr harbwr hwn gan Iarll Cawdor ar ddiwedd y 18fed ganrif i anfon allan calchfaen ar longau o'i chwarel gerllaw ac i dderbyn nwyddau moethus ar gyfer Llys Ystagbwll, ystad yr Iarll. **Sylwch**: cadair olwyn traeth a cherbyd symudedd pŵer ar gael o Ganolfan Ystagbwll (rhaid archebu ymlaen llaw ar 01646 623110).

**Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn o dan reolaeth agos. Efallai y bydd angen defnyddio tennyn ar yr ystad ehangach oherwydd y bywyd gwyllt a'r da byw.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu stackpolequay@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/stackpole-quay**

| Cei Ystagbwll | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr ystafell de** | | | | | | | | |
| 2 Ion–7 Ion | 11–3:30 | · | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 7 Chwe–24 Maw | 11–3:30 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 25 Maw–29 Hyd | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Hyd–31 Rhag* | 11–3:30 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Ar gau 24 hyd at 26 Rhagfyr.



# Cemaes i Lanbadrig

Ynys Môn

1962

O gloch llanw a ddyluniwyd gan Marcus Vergette i weddillion odyn galch sy'n rhoi awgrym o hanes diwydiannol Ynys Môn, mae'r darn hwn o Lwybr Arfordir Cymru yn gorwedd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae digonedd o bethau i ddiddori cerddwyr yma, ac os byddwch yn ymweld â Llanbadrig, cadwch olwg am stac cwartsit ysblennydd y Ladi Wen. **Sylwch**: mae'r toiledau agosaf yng Nghemaes.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL67 0ND.
**Parcio**: cyfyngedig

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori).

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 714795 neu cemaestollanbadrig@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/cemaes-to-llanbadrig**

# Cemlyn

Ynys Môn

1971

Yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar arfordir gogledd-orllewin Ynys Môn, mae Cemlyn yn un o Warchodfeydd Natur Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Daw'n ferw o brysurdeb adar yn y gwanwyn a'r haf, ac mae'n enwog am ei nythfa fridio o fôr-wenoliaid pigddu, môr-wenoliaid cyffredin a môr-wenoliaid y Gogledd, sy'n wledd i lygaid adaregwyr. Mae'r arfordir garw o greigiau, baeau bychain a phentiroedd yn berffaith ar gyfer cerddwyr, ac yn yr hydref a'r gaeaf, mae'r dirwedd yn cynnig golygfeydd a morweddau dramatig, gyda'r morlyn lled hallt wedi ei wahanu oddi wrth y môr gan gefnen hynod o gerrig mân. **Sylwch**: mae'r toiledau agosaf ym Mae Cemaes, 3 milltir (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL67 0DY.
**Parcio**: ym maes parcio Bryn Aber.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori).

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 714795 neu cemlyn@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/cemlyn**

# Coed Môr

ger Porthaethwy, Ynys Môn 2001

Coetir tawel ar lan Afon Menai. Cewch gerdded o dan Bont Britannia ar lwybrau coetir, ac ymweld â'r guddfan adar i wylio mulfrain ac adar hirgoes. **Sylwch**: mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori). Ar gyfer llywio â lloeren, defnyddiwch LL61 5YH.

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 714795 neu coedmor@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/coed-mor**

# Craflwyn a Beddgelert

ger Beddgelert, Gwynedd

1994

Mae ystad 200 erw Craflwyn yn gorwedd ym mherfeddion Eryri, mewn ardal sy'n llawn hanes a chwedlau. Mae rhwydwaith o lwybrau i'w cael, a gallwch fwynhau coetiroedd, rhaeadrau a llynnoedd wrth eu cerdded. Yng Nghraflwyn, gallwch ddysgu am Dywysogion Gwynedd, cyn mentro i fyny i Ddinas Emrys gerllaw, sef y man lle ganwyd draig goch Cymru, yn ôl y chwedl. O fewn milltir neu ddwy o Graflwyn, ceir teithiau cerdded gwych i bob gallu – gallwch fynd am dro drwy bentref Beddgelert neu gerdded llwybr garw'r Pysgotwr i lawr Bwlch Aberglaslyn. **Sylwch**: Mae Neuadd Craflwyn a'r bythynnod gerllaw ar gael fel llety gwyliau.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL55 4NG.
**Parcio**: ar y safle yng Nghraflwyn.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – croesewir cŵn ar dennyn.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01766 510120 neu
craflwyn@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/beddgelert**

# Cregennan

ger Arthog, Gwynedd

1959

Mae Cregennan yn gorwedd ar lethrau gogleddol Cadair Idris ac yn edrych draw tuag at aber Mawddach a Phont Abermaw. Gallwch gerdded o amgylch y ddau lyn naturiol neu fentro i fyny i Bared y Cefn Hir. Mae'r llyn mwyaf yn 27 erw ac mae ynys fechan, hardd ynddo. Yna, mae'r llyn lleiaf yn 13 erw ac yn gartref i frithyllod seithliw a brithyllod glas.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL39 1LJ.
**Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o dda byw a bywyd gwyllt).

**Am ragor o wybodaeth**: 01766 510120 neu
cregennanlakes@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/cregennan-lakes**

# Cwmtydu i Geinewydd

ger Ceinewydd, Ceredigion 1968

O gildraeth cysgodol Cwmtydu i bentref pysgota Ceinewydd, mae'r darn hwn o Lwybr Arfordir Cymru yn berffaith i gerddwyr, gyda chyfle i weld morloi, merlod gwyllt, blodau gwyllt a bywyd adar. **Sylwch**: cadwch gŵn ar dennyn pan fydd da byw gerllaw. Ar gyfer llywio â lloeren, defnyddiwch SA45 9QH.

**Am ragor o wybodaeth**: 01545 570200 neu
cwmtydu@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/cwm-tydu-to-newquay**

# De Aberllydan

ger Bosherston, Sir Benfro

1934

Bae tywod eang, hyfryd yn cefnu ar dwyni sy'n arwain at ystad goediog Ystagbwll a Llynnoedd Bosherston â'u lilis. Mae De Aberllydan yn wych ar gyfer anturiaethau teuluol. Cewch ryfeddu at y clogwyni trawiadol wrth gerdded ar hyd llwybr yr arfordir i Fae Barafundle a Chei Ystagbwll, neu archwilio Ystad Ystagbwll a'i hanes cudd.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA71 5DZ.
**Parcio**: maes parcio mawr ar y safle. Parciwch yng Nghanolfan Ystagbwll er mwyn gallu mynd â chadair olwyn neu gerbyd symudedd sy'n defnyddio pŵer i'r traeth (mae angen archebu ymlaen llaw. Ffoniwch 01646 623110). Man gwefru cerbydau trydan yng Nghanolfan Ystagbwll (SA71 5DQ) a Chei Ystagbwll (SA71 5LS).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – mae croeso i gŵn dan reolaeth agos, ar dennyn os oes angen, oherwydd bywyd gwyllt ac anifeiliaid yn pori.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu
broadhavensouth@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/broad-haven-south**

| De Aberllydan |
|---|
| Maes parcio ar agor bob dydd, o wawr hyd fachlud. |

# Dinas Dinlle

ger Caernarfon, Gwynedd

2002

Mae Dinas Dinlle yn fryngaer arfordirol cynhanesyddol sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Haearn. Dringwch y bryn serth i ddarganfod tŷ crwn rhyfeddol a ddatgelwyd yn ddiweddar gan archaeolegwyr. Mae golygfeydd arfordirol godidog tuag at fynyddoedd Yr Eifl ar arfordir gogleddol Pen Llŷn. **Sylwch**; parcio, toiledau ac arlwyo (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL54 5TW.
**Parcio**: ar y safle (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn ar dennyn.

**Am ragor o wybodaeth**: 01766 510120 neu
dinasdinlle@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/dinas-dinlle**

# Dinas Oleu

ger Abermaw, Gwynedd

1895

Yn edrych dros Abermaw, gyda golygfeydd ar draws Bae Ceredigion a Phen Llŷn y mae llechwedd eithinog Dinas Oleu. Drwy rodd garedig gan Mrs Fanny Talbot ym 1895, hwn oedd y darn o dir cyntaf i gael ei roi yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. **Sylwch**: tir creigiog serth a grisiau i gyrraedd pen y bryn.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL42 1BL.
**Parcio**: mae'r mannau parcio agosaf yn y

dref, ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (codir tâl, gan gynnwys ar aelodau).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – croesewir cŵn ar dennyn.

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu dinasoleu@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/dinas-oleu**

# Dinefwr

ger Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin

1990

Mae hanes hir Dinefwr wedi bod yn allweddol wrth lywio ac adlewyrchu datblygiad Cymru fel cenedl. Gallwch fynd i weld Tŷ Newton, plasty a godwyd yn y 1660au ac a addaswyd yn sylweddol yn y 1850au, a darganfod gorffennol cyfoethog yr ystad drwy arddangosfeydd, paentiadau hanesyddol a chelf gyfoes. Mae'r ardd yn edrych dros y parc ceirw, ac mae llwybrau'n arwain drwy'r parcdir, sy'n Warchodfa Natur Genedlaethol, oherwydd ei dolydd gwair llawn blodau, ei goetir trwchus hynafol, a'i goed hynod. Efallai y gwelwch y gyr hynafol o wartheg Parc Gwyn neu'r castell o'r 12fed ganrif yn edrych dros y parcdir. **Sylwch**: Mae Castell Dinefwr dan warchodaeth Cadw.

**Llywio â lloeren**: teipiwch National Trust Dinefwr **Parcio**: 50 llath o'r maes parcio i flaen Tŷ Newton. Man gwefru cerbydau trydan ar Fferm y Plas.

**Sgôr ôl pawen**: **Gorau** – Mae croeso i gŵn ar dennyn ar lawr gwaelod y tŷ yn unig, yn y parc allanol a'r caffi (cŵn cymorth yn unig ar y llwybr bordiau/parc ceirw oherwydd anifeiliaid yn pori).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01558 825910 neu dinefwr@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/dinefwr**

| Dinefwr | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tŷ Newton, y siop llyfrau ail law a'r caffi** | | | | | | | | |
| 6 Ion–11 Chwe | 10:30–3:30 | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 12 Chwe–29 Chwe | 10:30–3:30 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 1 Maw–3 Tach | 10:30–4:30 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 9 Tach–29 Rhag* | 10:30–3:30 | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| **Y Parc Ceirw** | | | | | | | | |
| 1 Maw–3 Tach | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

Y parcdir a'r maes parcio: ar agor bob dydd, o wawr hyd fachlud. *21 – 23 Rhagfyr, ar agor bob dydd, 10:30 tan 3:30; hefyd ar agor yn ystod gwyliau ysgol Cymru. Popeth ar gau ar 24 a 25 Rhagfyr.

# Dolaucothi

Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin SA19 8US

1941

Gallwch archwilio'r unig fwynglawdd aur Rhufeinig hysbys yn y DU, ar y tir neu o dan y ddaear, ar un o nifer o deithiau, gan gynnwys Mwyngloddio drwy'r Oesau, ceuffordd Rufeinig ac oriel, neu daith wastad – sy'n edrych ar y gweithfeydd mwy hygyrch. Gallwch hyd yn oed roi cynnig ar banio am aur yn iard y mwynglawdd. Oddi wrth y mwynglawdd, mae gan yr ystad ddolydd neu 'ddolau' blodau gwyllt, a cheir yno lwybrau cerdded a llwybrau aml-ddefnydd sy'n rhedeg ochr yn ochr ag Afon Cothi a thrwy goedwigoedd aeddfed a ffriddoedd, gyda golygfeydd eang dros gefn gwlad. **Sylwch**: archebu ymlaen llaw yn hanfodol ar gyfer teithiau tywys y mwynglawdd aur. Esgidiau cryfion yn hanfodol. Taldra lleiaf 1 metr/ni chaniateir plant yn cael eu cario ar y teithiau tanddaearol.

**Llywio â lloeren**: mae rhai systemau'n camgyfeirio. **Parcio**: ar y safle; maes parcio coetir gyferbyn â'r brif fynedfa.

**Sgôr ôl pawen**: **Da** – Croesewir cŵn ar dennyn, ond nid ar bob taith dywysedig.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01558 650809 neu dolaucothi@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/dolaucothi**

| Dolaucothi | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mwyngloddiau** | | | | | | | | |
| 27 Maw–21 Gorff* | 10–5 | · | · | **M** | **I** | · | · | **S** |
| 24 Gorff–1 Medi | 10–5 | · | · | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 4 Med–3 Tach* | 10–5 | · | · | **M** | **I** | · | · | **S** |
| **Yr ystad a'r llwybrau cerdded** | | | | | | | | |
| Ar agor gydol y flwyddyn | | | | | | | | |
| O wawr hyd fachlud | | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Y mwyngloddiau: 3–14 Ebrill, 29 Mai – 2 Mehefin, a 30 Hydref – 3 Tachwedd, ar agor dydd Mercher i ddydd Sul.

# Dolydd Lan-y-lai

ger Llanbedr-y-fro, Bro Morgannwg CF5 6LF 1998

Mae'r dolydd gwair llawn blodau gwyllt, gyda choed hynod wedi'u gwasgaru yma ac acw, yn gwneud Lan-y-lai yn noddfa i fywyd gwyllt. Wrth ichi gerdded ar hyd lan Afon Elái, cadwch olwg am ddyfrgwn a glas y dorlan. **Sylwch**: ychydig o fannau parcio ar y stryd, ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Ar agor o wawr hyd fachlud.

**Am ragor o wybodaeth**: 01874 625515 neu lanlaymeadows@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/lanlay-meadows**

# Erddig

ger Wrecsam, Clwyd

1973

Mae parc difyrion 1,200 erw Erddig, a ddyluniwyd gan William Emes, yn croesawu cerddwyr, rhedwyr (a'u cyfeillion pedair troed) a phawb sy'n chwilio am ychydig o lonydd. Yn y canol, uwchlaw Afon Clywedog, saif y tŷ, a achubwyd rhag mynd yn adfail yn y 1970au. Mae hwnnw'n cynnwys trysorfa o ddodrefn cain, tecstilau a phapurau wal. Gallwch hefyd ddysgu am y berthynas unigryw yr oedd gan y teulu gyda'u gweision a morwynion, drwy'r nifer fawr o bortreadau o'r gweision a morwynion ac ystafelloedd a warchodwyd yn ofalus, sy'n darlunio'u bywydau dros y cenedlaethau. Y tu allan, mae gardd o'r 18fed ganrif wedi'i hadnewyddu'n llwyr, gyda choed ffrwythau lluniedig, borderi blodau, coedlannau pisgwydd pleth a gwrychoedd ffurfiol. Ceir hefyd rhaeadr silindrog 'cwpan a soser' a gwrthglawdd castell mwnt a beili Normanaidd.

**Llywio â lloeren**: peidiwch â'i ddefnyddio, dilynwch yr arwyddion brown. **Parcio**: ar y safle, 200 llath o'r swyddfa docynnau. Man gwefru cerbydau trydan yn y maes parcio.

**Sgôr ôl pawen**: **Da** – croeso i gŵn yn y parc gwledig, yr iard goed a'r iard domen (cŵn cymorth yn unig yn yr ardd a'r maes chwarae).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01978 355314 neu erddig@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/erddig**

| Erddig | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y tŷ** | | | | | | | | |
| 1 Ion–29 Maw | 11:30–3 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Maw–27 Hyd | 11:30–3:30 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 28 Hyd–31 Rhag* | 11:30–3 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Yr ardd, y caffi a'r siop** | | | | | | | | |
| 1 Ion–29 Maw | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Maw–27 Hyd | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 28 Hyd–31 Rhag* | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Yr Ardal Chwarae Naturiol** | | | | | | | | |
| 10 Chwe–29 Maw | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Maw–27 Hyd | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 28 Hyd–3 Tach | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

Y tŷ: mae'r llwybr ar gyfer ymwelwyr yn amrywio drwy gydol y flwyddyn; mae'n bosib y bydd angen defnyddio tocynnau amser penodol ar wyliau banc a dyddiau prysur. *Ar gau 24 a 25 Rhagfyr.

# Freshwater West a Fferm Gupton

ger Castellmartin, Sir Benfro

1976

Mae Freshwater West yn gorwedd ar ran wyllt o'r arfordir sy'n berffaith ar gyfer chwaraeon dŵr ac anturiaethau tywodlyd. Y tu hwnt i'r traeth, mae Fferm Gupton, gwersyllfa Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a llety Caban Syrffio. Gallwch wylio bywyd gwyllt, dilyn llwybrau cerdded a gwneud yn fawr o'r arfordir drwy aros yn y wersyllfa. **Sylwch**: gofalwch rhag y llanw terfol cryf. Mae angen archebu lle ymlaen llaw i gerbydau gwersylla. Cyfleusterau gwersyllfa ar gyfer gwersyllwyr yn unig. Mae'n ddrwg gennym, ni chaniatier cŵn ar y llwybrau bywyd gwyllt.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA71 5AH ar gyfer Freshwater West, ac SA71 5HW ar gyfer Fferm Gupton. **Parcio**: ar draeth Freshwater West (tir garw, anwastad). Parcio ar Fferm Gupton ar gyfer rhai sy'n aros yn y wersyllfa yn unig.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – mae croeso i gŵn dan reolaeth agos ar y traeth, ac ar dennyn yn y wersyllfa gyda gwersyllwyr yn unig. Dim cŵn ar y llwybr bywyd gwyllt oherwydd y bywyd gwyllt sensitif.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu freshwater@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/freshwater-west**

| Freshwater West | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwersyllfa Fferm Gupton** | | | | | | | |
| 29 Chwe–30 Med | | | | | | | |
| O wawr hyd fachlud | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

Maes parcio'r Caban Syrffio a'r traeth ar agor bob dydd, o wawr hyd fachlud. I archebu'r Caban Syrffio a'r wersyllfa, a gweld pa bryd maent ar gael, ewch i nationaltrust.org.uk/gupton-farm-campsite neu anfonwch neges e-bost i guptonfarmcampsite@nationaltrust.org.uk

# Gardd Bodnant

Tal-y-cafn, ger Bae Colwyn, Conwy LL28 5RE

1949

Sefydlwyd yr ardd restredig Gradd I hon ym 1874 gan yr entrepreneur Fictoraidd, Henry Pochin. Mae'n gorwedd ar odre mynyddoedd Eryri, a cheir yno gasgliadau planhigion hynafol a golygfeydd o'r mynyddoedd. Mae pum cenhedlaeth o'r teulu wedi mynd ati i weddnewid yr ochr bryn 80 acer hwn yn Nyffryn Conwy, drwy blannu coed a llwyni prin o bob cwr o'r byd. Ceir yma derasau Eidalaidd â gwlâu blodau ffurfiol, pyllau a blodeuerddi, borderi llwyni anffurfiol, coedydd, dolydd a glynnoedd glan afon â rhaeadrau a chonwydd aruchel. Daw bob tymor â rhywbeth newydd – magnolias a rhododendronau yn y gwanwyn, rhosynnau a liliau'r-dŵr yn yr haf, lliwiau bendigedig y dail yn yr hydref a Gardd Aeaf fendigedig. Ers 1949, mae'r ardd wedi bod yn cael ei meithrin ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. **Sylwch**: llwybrau serth a dŵr agored.

**Parcio**: mynediad ar lethr. Man gwefru cerbydau trydan gyferbyn â Chaffi'r Pafiliwn.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – cyfyngiadau tymhorol – ceir 'dyddiau cŵn' penodol yn ystod y gwanwyn/haf. Croesewir cŵn ar dennyn byr yn unig.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01492 650460 neu bodnantgarden@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/bodnant-garden**

| Gardd Bodnant | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ion–29 Chwe | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 1 Maw–31 Hyd | 9:30–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 1 Tach–31 Rhag* | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Popeth ar gau 24 – 26 Rhagfyr.

# Gardd Goetir Colby

ger Llanrhath, Sir Benfro SA67 8PP

1980

Dafliad carreg o'r traeth ar droed, mae'r dyffryn coediog cudd hwn, gyda'i ardd gudd a'i orffennol diwydiannol, yn lle perffaith i chwarae. Mae yno goed wedi syrthio y gellir eu dringo, siglenni rhaff a chyfleoedd annisgwyl i chwarae ym mhobman. Daw'r gwanwyn â chlychau'r gog, camelias, rhododendronau ac asaleas, ac mae'r ardd furiog yn cynnig lliw, tawelwch a lle i gael llonydd drwy gydol y flwyddyn. Ceir hefyd lwybrau cerdded drwy'r coetir, nentydd troellog, a phyllau â cherrig sarn a phontydd boncyffion yn y ddôl blodau gwyllt, ac mae'r dyffryn cyfan yn ferw o fywyd gwyllt. **Sylwch**: yn anffodus, nid yw'r tŷ ar agor.

**Parcio**: 50 llath.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn ar dennyn byr yn yr ardd goetir ac ar y ddôl. Dan reolaeth agos ar yr ystad ehangach. Cŵn cymorth yn unig yn yr Ardd Furiog.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu colby@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/colby-woodland-garden**

| Gardd Goetir Colby | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Ardd Goetir** | | | | | | | | |
| 2 Ion–20 Rhag | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Y Ganolfan Ymwelwyr a'r Ardd Furiog** | | | | | | | | |
| 16 Maw–3 Tach* | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Yr ystafell de a'r oriel**** | | | | | | | | |
| 16 Maw–3 Tach | 10–4:30 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Y Ganolfan Ymwelwyr: ar agor bob penwythnos ym mis Mawrth. **Yr ystafell de a'r oriel yn cael eu rhedeg gan denant.

# Gerddi Dyffryn

Sain Nicolas, Caerdydd CF5 6FZ

2013

Mae Dyffryn yn ardd ar gyfer bob tymor, sydd wrthi'n cael ei hadfer yn araf i'w hysblander Edwardaidd. Wrth adfer yn raddol fel hyn, mae rhywbeth gwahanol i'w weld bob amser – o erddi ffurfiol i ddolydd gwyllt, casgliad trawiadol o gacti prin a choedardd drawiadol. Wedi'u creu ar ddechrau'r 20fed ganrif gan y tirluniwr enwog Thomas Mawson, mae'r gerddi'n rhan o weledigaeth y casglwr planhigion ymroddgar Reginald Cory, mab John Cory, y masnachwr glo cyfoethog o dde Cymru. Mae plasty rhestredig Gradd II* y teulu'n sefyll yn fawreddog yng nghanol y gerddi. **Sylwch**: Mae Tŷ Dyffryn ar gau er mwyn cynnal gwaith cadwraeth hanfodol a thra bo cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer ei ddyfodol.

**Llywio â lloeren**: o bentref Sain Nicolas, dilynwch yr arwyddion am Erddi Dyffryn. **Parcio**: ar y safle, gan gynnwys mannau parcio dynodedig a man gwefru cerbydau trydan.

**Sgôr ôl pawen**: **Da** – Mae croeso i gŵn ar dennyn byr yn yr ardd, y caffi a'r siop.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 02920 593328 neu dyffryn@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/dyffryn-gardens**

| Gerddi Dyffryn | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ion–18 Chwe | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 19 Chwe–24 Maw | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 25 Maw–29 Med | 10–6 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Med–20 Hyd | 10–5 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 21 Hyd–31 Rhag* | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Ar gau 25 a 26 Rhagfyr.

# Glan Faenol

ger Bangor, Gwynedd

1985

O'r coetir 120 acer hwn ar lannau Afon Menai, ceir golygfeydd tua Thŷ a Gardd Plas Newydd. Mae coed llydanddail lleol yn cael eu gosod yn raddol yn lle'r planhigfeydd conwydd, ac mae'r planhigion sy'n tyfu o dan eu canopi yn darparu lliw drwy gydol y flwyddyn. O'r olygfan uchel a'r cuddfan adar, fe welwch amrywiaeth eang o adar môr, a morloi o bryd i'w gilydd. **Sylwch**: dim toiled, yn anffodus.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL57 4BP.
**Parcio**: cyfyngedig

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori).

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 714795 neu faenol@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/glan-faenol**

# Gwesty a Sba Neuadd Bodysgallen

Ffordd y Cymry Brenhinol, Llandudno, Conwy LL30 1RS

2008

Dyma dŷ rhestredig Gradd I o'r ail ganrif ar bymtheg, sy'n sefyll o fewn 220 acer o barcdir ac yn meddu ar olygfeydd godidog o Gastell Conwy ac Eryri. Mae'r gerddi rhamantaidd, sydd wedi ennill gwobrau am y modd y cawsant eu hadfer, yn cynnwys blodeuardd brin llawn perlysiau peraroglus, yn ogystal â nifer o ffugadeiladau, rhaeadr, gardd furiog a gerddi rhosynnau ffurfiol. Y tu hwnt i'r rhain, mae'r parcdir yn cynnig milltiroedd o lwybrau cerdded ysblennydd a golygfeydd tua'r arfordir. **Sylwch**: mynediad a pharcio ar gyfer gwesteion sy'n talu yn unig, gan gynnwys gwesteion ar gyfer cinio, te prynhawn a swper, a'r sba. Mae croeso i blant dros chwe blwydd oed. Cŵn cymorth yn unig yn y prif westy. Llety addas i gŵn ar gael ar gais.

**Am ragor o wybodaeth**: 01492 584466 neu info@bodysgallen.com
**bodysgallen.com**

# Hafan Marthin

ger Marloes, Sir Benfro

1981

Mae'r pentir eithriadol o wyllt hwn sydd â golygfeydd godidog ar Fae Sain Ffraid, hefyd yn ddihangfa i Ynys Sgomer. I gael diwrnod gwirioneddol amrywiol a chyffrous, beth am gyfuniad o wylio bywyd gwyllt y môr a darganfod olion aneddiadau hynafol? **Sylwch**: toiledau agosaf ger y llithrfa. Toiledau hygyrch ar gael yn Lockley Lodge, Ymddiriedolaeth Natur Cymru.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA62 3BJ.
**Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn o dan reolaeth agos.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu martinshaven@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/martins-haven**

# Hafod

Pont-rhyd-y-groes, Ystradmeurig, Ceredigion

2022

Mae'r Hafod yn ymestyn dros 494 erw yng Nghwmystwyth ac mae'n un o'r esiamplau gorau o dirwedd pictiwrésg yn Ewrop. Mae'r dirwedd drawiadol hon yng nghanolbarth Cymru yn cynnwys rhaeadrau a cheunentydd creigiog y gallwch eu gweld drwy ddilyn pum llwybr ag arwyddbyst. Gallwch ymweld â Gardd Flodau Mrs Johnes a chadw golwg am fywyd gwyllt ar hyd y ffordd, gan gynnwys barcutiaid coch a throchwyr.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SY25 6DX a dilyn yr arwyddion am y maes parcio.
**Parcio**: ar y safle, ger yr eglwys.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – croesewir cŵn ar dennyn.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01974 282568 neu hafod@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/hafod**

# Hafod y Llan

ger Beddgelert, Gwynedd

1998

Hafod y Llan, yn nyffryn hardd Nant Gwynant, yw'r fferm fwyaf sy'n cael ei rhedeg gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yn ymestyn o lawr y dyffryn i gopa'r Wyddfa, mae rhan o'r fferm yn Warchodfa Natur Genedlaethol ddynodedig yn ogystal â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae croeso ichi grwydro'r llwybrau lu sy'n croesi'r dirwedd hon. **Sylwch**: gan fod hon yn fferm weithiol, ar droed yn unig y gellir mynd ar y buarth.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL55 4NQ.
**Parcio**: ar y fferm ar gyfer y wersyllfa yn unig. Man gwefru cerbydau trydan yn y wersyllfa i westeion. Ar gyfer Llwybr Watkin, defnyddiwch y maes parcio talu ac arddangos (nad yw'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) ym Methania, gyferbyn â mynedfa'r fferm.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – croesewir cŵn ar dennyn. Byddwch yn ystyriol o'r da byw.

**Am ragor o wybodaeth**: 01766 890473 neu hafodyllan@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/hafod-y-llan-farm**

# Llanerchaeron

Ciliau Aeron, ger Aberaeron, Ceredigion SA48 8DG

1989

Ystad wledig Gymreig o'r 18fed ganrif sydd, yn rhyfeddol, heb ei haddasu. Mae'n cynnwys fila, gerddi muriog, buarth a pharciau difyrion wedi'u hamgylchynu gan barcdir a choetiroedd. Mae'r fila (tŷ) yn enghraifft gynnar o waith y pensaer John Nash. Fe'i hadeiladwyd yn y 1790au, ynghyd â'i gwrt gwasanaeth ei hun, sy'n cynnwys llaethdy, golchdy a thŷ halltu – cynlluniwyd yr ystad i fod yn hunangynhaliol. Mae'r gerddi cegin muriog yn frith o liw yn yr haf a'r coed espalier yn doreithiog o afalau yn yr hydref. Gallwch archwilio'r parc difyrion a'r llyn addurnol, cyn darganfod y tai allan traddodiadol trawiadol a llwybrau cerdded tawel drwy goetir neu barcdir.

**Parcio**: 50 llath o du blaen y tŷ.

**Sgôr ôl pawen**: **Da** – Croesewir cŵn ar dennyn yn y gerddi, yn y parciau difyrion ac ar lwybrau cerdded y coetir.

**Mynediad:**

**Am ragor o wybodaeth**: 01545 570200 neu llanerchaeron@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/llanerchaeron**

| Llanerchaeron | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y tŷ, yr ardd, y caffi a'r siop llyfrau ail law.** | | | | | | | | |
| 14 Chwe–3 Tach* | 10–4:30** | · | · | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Ar agor bob dydd 25 Mawrth tan 7 Ebrill, hanner tymor mis Mai a gwyliau haf ysgolion. **Mae'r tŷ'n agor am 11.

# Morfa a Nant Bach

ger Trefor, Gwynedd 1997

Arfordir creigiog a thraeth cerrig mân wedi'i ddominyddu gan yr hyn a arferai fod yn chwarel wenithfaen fwyaf y byd. **Sylwch**: parcio a thoiledau (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori). Ar gyfer llywio â lloeren, defnyddiwch LL54 5LB.

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu morfa@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/morfa-and-nant-bach**

# Mwnt

ger Aberteifi, Ceredigion

1963

Bae diarffordd gyda thraeth tywodlyd lle gallwch wylio dolffiniaid, morloi a bywyd gwyllt lleol arall. Ceir llwybrau i ben Foel y Mwnt, lle ceir golygfeydd dros Fae Ceredigion. Ar ddiwrnod clir, efallai y cewch gip ar fynyddoedd Eryri yn y pellter. **Sylwch**: grisiau serth at y traeth heb unrhyw ganllaw – ddim yn addas ar gyfer unrhyw un sydd â symudedd cyfyngedig.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA43 1QH.
**Parcio**: uwchlaw'r traeth (grisiau serth i gyrraedd yno).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn, ond ni chaniateir cŵn ar y traeth o fis Mai tan fis Medi.

**Am ragor o wybodaeth**: 01545 570200 neu mwnt@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/mwnt**

| Mwnt | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y caffi** | | | | | | | | |
| 12 Chwe–3 Tach | 10:30–5* | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Y caffi: amseroedd agor yn dibynnu ar y tywydd.

# Mynydd Mawr a Braich y Pwll

ger Uwchmynydd, Pwllheli, Gwynedd

1954

O gopa Mynydd Mawr, cewch olygfeydd arfordirol anhygoel yn ymestyn o arfordir Iwerddon i'r gorllewin, Eryri i'r dwyrain, Ynys Môn i'r gogledd ac Ynys Enlli i'r de. Ar y llwybrau arfordirol o amgylch Mynydd Mawr, cewch gyfle gwych i weld nifer o rywogaethau prin, megis cen euraidd, cor-rosyn rhuddfannog a'r frân goesgoch.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL53 8BY.
**Parcio**: mannau parcio ar laswellt wrth droed Mynydd Mawr a maes parcio bach yn y top, ger hen orsaf gwylwyr y glannau (bydd angen mynd ar hyd trac cul, troellog).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori).

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu mynyddmawr@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/mynydd-mawr-and-braich-y-pwll**

# Pen y Gogarth

ger Llandudno, Conwy

2015

Mae fferm Y Parc ar Ben y Gogarth wedi'i hamgylchynu gan wal gerrig 3,000 medr o hyd a adferwyd gan geidwaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r ffermwr tenant, y ceidwaid a phartneriaid yn gweithio i reoli praidd o ddefaid sy'n cael ei fugeilio'n draddodiadol er budd y glaswelltir calchfaen a'r planhigion prin, gloÿnnod byw ac adar a geir ar y fferm ac yn y Parc Gwledig gerllaw. **Sylwch**: canolfan ymwelwyr a thoiledau (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL30 2BW.
**Parcio**: ar y safle (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r clogwyni a'r da byw).

**Am ragor o wybodaeth**: 01766 510120 neu greatorme@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/great-orme**

# Pen-caer i Aberteifi

Pen-caer, Pen-caer i Aberteifi, Sir Benfro, Cymru SA62 1975

Ehangder garw a phellennig o glogwyni u chel a brigiadau creigiog, gyda llwybrau arfordirol a golygfeydd o'r môr. **Sylwch**: nid oes maes parcio na chyfleusterau.

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu strumbleheadtocardigan@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/strumblehead-to-cardigan**

## Pen-y-fâl, Ysgyryd Fawr a Dyffryn Wysg

ger Y Fenni, Sir Fynwy

1936

Mae golygfeydd godidog ar draws Sir Fynwy a'r gororau i'w cael o gopaon Pen-y-fâl ac Ysgyryd Fawr. Fel arall, gallwch grwydro drwy'r coetir hynafol o boptu i'w llethrau ac yna cael picnic a mynd am dro drwy barcdir Ystad Cleidda, i'r dwyrain o'r Fenni, neu ddringo Coed y Bwnydd, sef bryngaer o'r Oes Haearn.

**Parcio**: Ceir nifer o feysydd parcio ar gyfer Pen-y-fâl ac Ysgyryd Fawr. Nid yw pob un yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (codir tâl, gan gynnwys ar aelodau). Mae angen mynd ar hyd lonydd cul, troellog i gyrraedd rhai ohonynt. Ychydig o fannau parcio ar Ystad Cleidda.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o dda byw a bywyd gwyllt, megis adar sy'n nythu ar y tir).

**Am ragor o wybodaeth**: 01874 625515 neu sugarloaf@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/ sugarloaf-and-usk-valley**

## Penbryn

ger Sarnau, Aberteifi, Ceredigion

1967

Yn un o gyfrinachau gorau Ceredigion, mae'r cildraeth diarffordd hwn wedi'i leoli i lawr lonydd deiliog â chloddiau toreithiog o flodau ar eu hymylon. Mae'n gorwedd ar lwybr arfordir rhwng Tre-saith a Llangrannog, a cheir llwybrau coetir llonydd, braf a bywyd gwyllt i'w ganfod ar hyd y ffordd **Sylwch**: grisiau serth i lawr at y traeth (nid oes canllaw, felly nid yw'n addas ar gyfer unrhyw un sydd â symudedd cyfyngedig).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA44 6QL.
**Parcio**: ar y safle. Man gwefru cerbydau trydan.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn, ond ni chaniateir cŵn ar y traeth o fis Mai tan fis Medi.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01545 570200 neu penbryn@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/penbryn**

| Penbryn | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y caffi** | | | | | | | | |
| 12 Chwe–3 Tach | 10–4* | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Y caffi: amseroedd agor yn dibynnu ar y tywydd.

## Pennard, Pwll-du a Dyffryn Llandeilo Ferwallt

ger Southgate, Abertawe

1954

Clogwyni trawiadol gydag ogofâu lle mae gweddillion mamoth wedi cael eu canfod. Dyma ardal sy'n adnabyddus am adar prin, afon danddaearol, clwydfannau ystlumod, mwyngloddio am arian a phlwm, coetir hynafol, smyglo a chloddio am galchfaen. Hefyd, ceir nifer o nodweddion archaeolegol a dwy ogof bwysig – sef Bacon Hole a Minchin Hole. **Sylwch**: oherwydd y llanw terfol peryglus, cynghorir ichi beidio â nofio ym Mae'r Tri Chlogwyn.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA3 2DH.
**Parcio**: ym maes parcio Southgate.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn, ond ar dennyn byr o gwmpas y da byw (sy'n pori'n rhydd ar Dwyni Pennard).

**Am ragor o wybodaeth**: 01792 390636 neu pennard@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/pennard-pwll-du-and-bishopston-valley**

## Penrhyn Dewi, a Chanolfan Ymwelwyr a Siop Tyddewi

Tŷ'r Capten, Stryd Fawr, Tyddewi, Sir Benfro SA62 6SD

1974

Mae'r penrhyn prydferth hwn wedi bod yn ganolbwynt diwylliannol poblogaidd ers miloedd o flynyddoedd. Mae'r ganolfan ymwelwyr a'r siop, sydd â stoc dda ynddi, yn edrych i gyfeiriad y groes Geltaidd yn Nhyddewi, dinas hanesyddol leiaf Cymru. Gall y tîm ddweud popeth wrthych am grwydro'r ardal a gwneud yn fawr o'ch ymweliad. **Sylwch**: toiledau ar gael yn Nhyddewi (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Parcio**: yn Nhyddewi ac ar Benrhyn Dewi (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – mae croeso i gŵn yn y ganolfan ymwelwyr a'r siop, a dan reolaeth agos ar y penrhyn.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01437 720385 neu stdavidsshop@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/ st-davids-visitor-centre**

| Canolfan Ymwelwyr Tyddewi | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 Ion–10 Chwe | 11–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | · |
| 12 Chwe–21 Hyd | 10–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 22 Hyd–31 Rhag* | 11–4 | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Ar gau 25 hyd at 29 Rhagfyr.

# Pistyll

ger Pistyll, Gwynedd 1990

Mae'r arwyddion ar hyd y llwybr yn arwain tua thraeth Porth Pistyll, lle mae bryniau trawiadol yr Eifl yn ymdreiglo i lawr i'r môr. Mae cannoedd o adar môr, megis gwylogod, yn nythu ar glogwyni Carreg Llam. **Sylwch**: parcio cyfyngedig ar y safle (gyda map yn dangos llwybrau cylchol). Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori). Ar gyfer llywio â lloeren, defnyddiwch LL53 6LR.

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu pistyll@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/pistyll**

# Plas yn Rhiw

Y Rhiw, Pwllheli,
Gwynedd LL53 8AB

1952

Yn sefyll ar fryn sy'n edrych dros Fae Ceredigion, mae Plas yn Rhiw yn faenordy hardd o'r 17eg ganrif, gydag ychwanegiadau o'r cyfnod Sioraidd. Cafodd y tŷ ei achub rhag esgeulustod a'i atgyweirio'n ofalus gan y tair chwaer Keating, a brynodd y tŷ ym 1939. Mae'r golygfeydd o'r tiroedd a'r gerddi ar draws y bae ymhlith y rhai mwyaf ysblennydd ym Mhrydain. Mae'r ardd yn cynnwys nifer fawr o lwyni a choed blodeuol hardd, ynghyd â gwlâu wedi'u fframio â gwrychoedd bocs a llwybrau glaswelltog. Mae yna hefyd goetiroedd, perllan a dôl i'w crwydro.

**Parcio**: ar y safle. 100 llath (lonydd cul). Man gwefru cerbydau trydan yn y maes parcio uchaf ger yr ystafell de.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – mae croeso i gŵn ar dennyn ar lwybr cerdded y coetir islaw'r dderbynfa ymwelwyr (cŵn cymorth yn unig yn y tŷ a'r ardd).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 780219 neu plasynrhiw@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/plas-yn-rhiw**

| Plas yn Rhiw | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y tŷ a'r ardd** | | | | | | | | |
| 20 Maw–3 Tach | 10:30–4:30* | · | · | **M** | **I** | · | **S** | **S** |
| **Yr ystafell de** | | | | | | | | |
| 20 Maw–3 Tach | 10:30–4:30** | · | · | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Y tŷ yn agor am 11. Ar agor ar wyliau banc.
**Ystafell de: ar agor 11 tan 3:30 ar ddydd Gwener.

# Pont Grog Conwy

Conwy LL32 8LD 1965

Yn sefyll yng nghysgod Castell Conwy, arferai pont grog urddasol Thomas Telford fod yn borth i mewn i'r dref. Wedi'i chuddio gan bont reilffordd Stephenson, heddiw mae'n cynnig golygfeydd hyfryd o'r aber. **Sylwch**: dim toiled na chyfleusterau, yn anffodus. Ar agor i gerddwyr a beicwyr.

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 353084 neu conwybridge@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/**
**conwy-suspension-bridge**

# Porth Dafarch

ger Caergybi, Ynys Môn 1999

Rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n boblogaidd am ei hanes cyfoethog, ei bae tywodlyd, ei hogofâu a'i chreigiau hynafol. Mae'r clogwyni yn gynefin i lawer o frain coesgoch. **Sylwch**: ychydig o fannau parcio ar ochr y ffordd a thoiledau. Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori). Ar gyfer llywio â lloeren, defnyddiwch LL65 2LR.

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 714795 neu porthdafarch@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/porth-dafarch**

# Porth Dinllaen

Morfa Nefyn, Gwynedd

1994

Mae'r hen bentref pysgota hwn yn drysor go iawn. Yn eistedd ym mhen pellaf rhimyn tenau o dir sy'n ymestyn allan i Fôr Iwerddon, mae ei ddyfroedd cysgodol clir yn llepian yn erbyn tai cerrig cadarn. Gallwch wylio pysgotwyr yn dod â dalfa'r diwrnod i'r tir, wrth ymlacio gyda diod yn nhafarndy'r Tŷ Coch. Pan fo'r llanw ar drai, mae'n bosib gweld y ddôl forwellt sy'n gyfoethog o ran ecoleg. **Sylwch**: toiledau, ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae pentref Porth Dinllaen oddeutu 1 milltir o'r maes parcio agosaf; dim mynediad i gerbydau.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL53 6DA.
**Parcio**: ar y safle ar gyfer y traeth; milltir o'r pentref (nid oes modd cyrraedd y pentref gyda cherbyd). Man gwefru cerbydau trydan yn ymyl y caban ymwelwyr.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – mae croeso i gŵn dan reolaeth agos, 1 Hydref tan 31 Mawrth; dim cŵn ar ochr ddwyreiniol y traeth yn yr haf.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu porthdinllaen@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/porthdinllaen**

# Porth Meudwy

ger Aberdaron, Gwynedd

1990

Cildraeth cysgodol ar arfordir gwyllt a chreigiog i'r gorllewin o Aberdaron. Ers talwm, dyma oedd y man byrddio i bererinion i Ynys Enlli. Heddiw, mae pysgotwyr yn dal } i ddod â'r ddalfa ddyddiol i'r cildraeth. Cadwch olwg am gychod pren unigryw Aberdaron, wedi'u dylunio i ddawnsio'n sionc o don i don ar hyd yr arfordir creigiog. **Sylwch**: dim toiled, yn anffodus.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL53 8DA.
**Parcio**: ar y safle, 1/2 milltir.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o'r bywyd gwyllt a da byw yn pori).

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu porthmeudwy@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/porth-meudwy**

# Porth y Swnt

Henfaes, Aberdaron, Pwllheli,
Gwynedd LL53 8BE

2010

Mae canolfan ddehongli Porth y Swnt wedi'i lleoli ym mhen pellaf Pen Llŷn ac mae'n cyflwyno treftadaeth ddiwylliannol a morol gyfoethog Llŷn, yn ogystal â hanes natur a hanes dynol yr ardal. Gallwch ddysgu am y pererinion a ddaeth yma o bob cwr o'r byd, ac mae'r Môr o Eiriau yn cynnig cyfle i greu eich barddoniaeth eich hun. Mae hen optig goleudy Ynys Enlli yno ichi gael ei weld hefyd.

**Parcio**: ar y safle. Man gwefru cerbydau trydan y tu ôl i'r ganolfan ymwelwyr.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** – croeso i gŵn yn y siôp a'r dderbynfa (cŵn cymorth yn unig yn y ganolfan ddehongli). Cyfyngiadau tymhorol ar draeth Aberdaron.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu porthyswnt@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/porth-y-swnt**

| Porth y Swnt | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y ganolfan ymwelwyr** | | | | | | | | |
| 23 Maw–3 Tach* | 10:30–4 | · | · | · | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Ar agor bob dydd yn ystod cyfnodau prysur, megis gwyliau'r ysgol (gwiriwch cyn ymweld).

# Porthclais

Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6RR

1934

Adeiladwyd yr harbwr bychan hwn ym mhen de-orllewin Penrhyn Dewi yn ystod y 12fed ganrif. Ar un adeg, roedd yn borthladd prysur, ond mae bellach yn boblogaidd ymhlith caiacwyr a pherchnogion cychod bychain. Ceir yma hefyd lwybrau cerdded arfordirol a chyfleoedd i ddringo, yn ogystal â chiosg bychan sy'n cael ei redeg gan bobl leol, yn gwerthu byrbrydau a lluniaeth. **Sylwch**: mae amseroedd agor y ciosg yn amrywio, mis Ebrill tan fis Medi (ffoniwch 01646 623110 am fanylion).

**Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** – Mae croeso i gŵn o dan reolaeth agos.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu porthclais@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/porthclais**

# Porthor

Aberdaron, Gwynedd

1981

Traeth sy'n enwog am ei 'dywod chwibanog' a'i ddyfroedd disglair. Mae'r chwibanu'n digwydd gan fod y gronynnau tywod ar y traeth mor fân – perffaith ar gyfer adeiladu cestyll tywod. Os nad yw cestyll tywod a thorheulo yn ei gwneud hi i chi, mae pyllau glan môr i'w harchwilio ac mae Llwybr Arfordir Cymru yn arwain i'r ddau gyfeiriad o'r maes parcio. **Sylwch**: toiledau yn y maes parcio (drwy gydol y flwyddyn) a ger y traeth (ar agor yn dymhorol).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL53 8LG. **Parcio**: ar y safle. Man gwefru cerbydau trydan ger yr allanfa.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** – mae croeso i gŵn dan reolaeth agos, 1 Hydref tan 31 Mawrth; dim cŵn ar y traeth yn yr haf.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu porthor@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/porthor**

# Rhosili ac Arfordir De Gŵyr

ar Benrhyn Gŵyr, Abertawe

1933

Yn gorwedd ym mhen pellaf Penrhyn Gŵyr, mae gan Rosili gyfoeth o fywyd gwyllt, a 3 milltir o dywod euraidd arobryn a golygfeydd arfordirol. Mae'n fan cychwyn perffaith ar gyfer crwydro arfordir de Gŵyr – gyda'r rhan fwyaf ohono dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r siop ar agor yn dymhorol ac mewn lleoliad perffaith yn edrych dros draeth Rhosili, lle gallwch brynu hanfodion funud olaf ar gyfer teithiau cerdded, yn ogystal â diodydd poeth, byrbrydau a chofroddion. Dyma le sy'n byrlymu o chwedlau a hanesion llongddrylliadau – mae cymaint i'w weld yma. O ynys lanwol Pen Pyrod i wrthgloddiau o'r Oes Haearn a'r gyfundrefn ganoloesol ffermio lleiniau a elwir yn 'The Vile'. **Sylwch**: grisiau serth a llethr at y traeth. Mynediad gwastad at Hen Olygfan Gwylwyr y Glannau, yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA3 1PR. **Parcio**: maes parcio mawr talu ac arddangos ym mhen pellaf y pentref. Addas i gartrefi modur (dim aros dros nos).

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** – croesewir cŵn (ar dennyn ger da byw). Mae croeso i gŵn ar y traeth drwy gydol y flwyddyn.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01792 390707 neu rhosili@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/rhosili-and-south-gower-coast**

# Segontium

Caernarfon, Gwynedd 1937

Caer a godwyd i amddiffyn yr Ymerodraeth Rufeinig rhag llwythau gwrthryfelgar. **Sylwch**: dan warchodaeth Cadw – gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Amgueddfa – ddim yn nwylo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ar gyfer llywio â lloeren, defnyddiwch LL55 2LN.

**Am ragor o wybodaeth**: 0300 025 6000 (Cadw)

# Sgwd Henrhyd

ger Coelbren, Bannau Brycheiniog, Powys

1947

Mae'r rhaeadr uchaf yn ne Cymru – Sgwd Henrhyd, y credir iddi gael ei ffurfio tua diwedd yr Oes Iâ ddiwethaf, filiynau o flynyddoedd yn ôl – yn cwympo drwy geunant i mewn i forlyn bychan. Gallwch fynd am dro anturus drwy goedwig Graig Llech at y rhaeadr. **Sylwch**: llwybrau anwastad ac arwynebau llithrig.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA10 9PH a dilyn yr arwyddion am Sgwd Henrhyd. **Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** – croesewir cŵn ar dennyn.

**Am ragor o wybodaeth**: 01874 625515 neu henrhydfalls@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/henrhyd-falls**

# Traeth a Chors Marloes

Marloes, Sir Benfro

1941

Llain hir o draeth ar ymyl gorllewinol Sir Benfro yw traeth Marloes. Gallwch gadw golwg am fywyd morol neu fynd am dro ar hyd llwybr yr arfordir ar ben y clogwyn. Mae gwlypdir Cors Marloes, ymhellach i mewn i'r tir, yn ferw o adar. Dewch â binocwlars a gallwch ddod yn nes at natur yn y cuddfannau gwylio adar. **Sylwch**: toiledau agosaf 164 llath ar hyd y llwybr, heibio caffi Runwayskiln. I gyrraedd y traeth, mae angen croesi cae a mynd i lawr llwybr cul ar ymyl clogwyn.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA62 3BH.
**Parcio**: ar y safle. Pwynt gwefru ceir trydan.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** –
Mae croeso i gŵn o dan reolaeth agos.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu
marloessands@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/marloes-sands**

# Traeth Llanbedrog

Llanbedrog, Gwynedd

2000

Yn enwog am ei gytiau glan môr lliwgar, mae cenedlaethau lu wedi mwynhau'r darn bendigedig hwn o draeth. Mae'r dyfroedd cysgodol, y golygfeydd o Fae Ceredigion, a'r dirwedd goediog, arw gerllaw yn ei wneud yn un o drysorau Llŷn. **Sylwch**: mae'r toiled agosaf ar hyd y ffordd i'r traeth (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL53 7TT.
**Parcio**: ar y safle. Man gwefru cerbydau trydan yn ymyl y caban ymwelwyr.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** – Mae croeso i gŵn, ond rhaid eu cadw ar dennyn nes ichi fynd heibio'r cytiau glân môr, 1 Ebrill tan 30 Medi.

**Am ragor o wybodaeth**: 01758 703810 neu
llanbedrog@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/llanbedrog-beach**

# Tŵr Paxton

Llanarthne, ger Dryslwyn,
Sir Gaerfyrddin

1965

Dyluniwyd Tŵr Paxton gan Samuel Pepys Cockrell, ac fe'i adeiladwyd ym 1811 er cof am yr Arglwydd Lyngesydd Nelson. Yn y gorffennol, byddai ymwelwyr wedi mwynhau mynd mewn cerbyd at y tŵr i gael gwledd. Heddiw, gallwch fynd am dro o gwmpas gwaelod y tŵr a mwynhau golygfeydd 360-gradd ar draws cefn gwlad Dyffryn Tywi. **Sylwch**: dim toiled, yn anffodus.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch SA32 8HX.
**Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** – Croesewir cŵn ar dennyn byr.

**Am ragor o wybodaeth**: 01558 825910 neu
paxtonstower@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/paxtons-tower**

# Tŷ a Gardd Plas Newydd

Llanfairpwll, Ynys Môn LL61 6DQ

1976

Plasty a gerddi cyfareddol yw Plas Newydd, gyda golygfeydd o fynyddoedd Eryri ac Afon Menai. Dyma gartref Marcwis Ynys Môn, ac mae ei breswylwyr blaenorol yn cynnwys y Marcwis 1af, a gollodd ei goes yn ystod Brwydr Waterloo, a'r 5ed Marcwis a oedd yn gymeriad hynod liwgar. Mae'r tŷ ceinwych hwn o'r 18fed ganrif yn gymysgedd diddorol o arddulliau clasurol a Gothig, gyda murlun 58 troedfedd Rex Whistler yn ychwanegu at y cyfan. Mae'r gerddi rhestredig Gradd I yn cynnwys Teras Eidalaidd, Gardd Rhododendronau a Choedardd Awstralasiaidd. Yn berffaith ar gyfer mwynhau antur awyr agored, mae uchafbwyntiau'r ardd yn cynnwys tŷ pen coeden wedi'i adeiladu â llaw, cuddfannau natur, cwrs golff Frisbee™, maes chwarae – a'r gwiwerod coch sy'n byw yno. **Sylwch**: gall gwaith adeiladu hanfodol effeithio ar amseroedd agor y tŷ a threfniadau teithiau tywys (edrychwch ar y wefan cyn ymweld).

**Parcio**: 400 llath o'r dderbynfa ymwelwyr.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾🐾 **Da** – Mae croeso i gŵn ar dennyn byr yn yr ardd (ac eithrio'r Teras Eidalaidd), y caffi a'r siop. Cŵn cymorth yn unig yn y tŷ.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 714795 neu
plasnewydd@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/plas-newydd**

| Plas Newydd | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y tŷ** | | | | | | | | |
| 24 Chwe–21 Maw* | 11–3:30** | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 22 Maw–3 Tach | 11–4** | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 9 Tach–29 Rhag* | 11–3:30** | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| **Y gerddi, y siop a'r caffi** | | | | | | | | |
| 1 Ion–7 Ion | 10:30–4† | **Ll** | **M** | · | · | · | **S** | **S** |
| 13 Ion–4 Chwe | 10:30–4† | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 10 Chwe–3 Tach | 10:30–5† | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 9 Tach–15 Rhag | 10:30–4† | · | · | · | · | · | **S** | **S** |
| 21 Rhag–31 Rhag†† | 10:30–4† | **Ll** | **M** | · | · | **G** | **S** | **S** |

*Y tŷ: mynediad drwy daith dywys yn unig. **Gall trefniadau agor ac ystafelloedd sydd ar agor amrywio (edrychwch ar y wefan cyn ymweld). †Caffi: yn agor am 10; 10 Chwefror hyd at 3 Tachwedd, yn cau am 4:30; y gerddi a'r siop: mynediad olaf awr cyn amser cau. ††Ar gau 25 a 26 Rhagfyr

# Tŷ Mawr Wybrnant

Penmachno, Betws-y-coed, Conwy

1951

Tŷ fferm cyffredin o'r unfed ganrif ar bymtheg a chanddo arwyddocâd diwylliannol enfawr. Dyma lle ganwyd yr Esgob William Morgan, y bu i'w waith diflino yn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg dros gyfnod o 10 mlynedd helpu i sicrhau parhad yr iaith. Mae'r tŷ fferm wedi'i leoli ar yr hen lwybr porthmyn ac mae sawl llwybr cerdded i'w cael yn y dyffryn. **Sylwch**: mynediad drwy ffordd gul o Benmachno. Toiledau ar gael pan fo'r tŷ fferm ar agor yn unig.

**Llywio â lloeren**: peidiwch â'i ddefnyddio, dilynwch yr arwyddion brown. Dim mynediad o'r A470. **Parcio**: 500 llath.

**Sgôr ôl pawen**: 🐾 **Safonol** –
croesewir cŵn ar dennyn.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01766 510120 neu
tymawrwybrnant@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/ty-mawr-wybrnant**

Tŷ Mawr Wybrnant

Y tir: ar agor bob dydd. Ystafell arddangos: 7 Ebrill hyd at 6 Hydref, ar agor bob dydd. Y tŷ fferm: ar agor ar ddydd Sul cyntaf y mis, 7 Ebrill hyd at 6 Hydref, 10 tan 4; edrychwch ar y wefan am amseroedd agor ychwanegol.

# Tŷ Tredegar

Ffordd Pencarn, Casnewydd,
Gwent NP10 8YW

2012

Mae Tŷ Tredegar a'r teulu Morgan wedi bod yn rhan bwysig o gymuned Casnewydd a'r cyffiniau ers dros 500 mlynedd. Daw'r straeon diddorol am ddewrder adeg y rhyfel, anghydfod ynghylch etifeddiaeth, tywysoges Rwsiaidd a'r ystod eang o ddylanwadau â bywyd i gartref a ddyluniwyd i greu argraff a difyrru. Mae'r gerddi ffurfiol cyferbyniol yn adlewyrchu bywyd y teulu a fu unwaith yn byw yma, tra bo'r parcdir yn hafan i ymwelwyr a bywyd gwyllt fel ei gilydd. Mae'r rhai sy'n gofalu am y tŷ, y gerddi a'r parcdir heddiw yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol, gan gyfuno hanes lliwgar a rhaglenni modern i ddod â budd i bawb sy'n ymweld.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch 'Pencarn Way' yn ogystal â'r cod post. **Parcio**: ar y safle. Un man gwefru cerbydau trydan.

**Sgôr ôl pawen**: **Gorau** – croesewir cŵn sy'n ymddwyn yn dda ar y parcdir, yn y gerddi ffurfiol ac yn y caffi.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01633 815880 neu tredegar@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/tredegar-house**

| Tŷ Tredegar | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y tŷ a'r ardd** | | | | | | | | |
| 10 Chwe–29 Maw | 12–3:30* | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Maw–29 Med | 11–4:30* | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Med–3 Tach | 11–3:30* | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 4 Tach–23 Rhag | 11–3:30* | **Ll** | · | · | · | **G** | **S** | **S** |
| **Y caffi** | | | | | | | | |
| 1 Ion–29 Maw | 10–4** | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Maw–29 Med | 10–5** | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| 30 Med–31 Rhag† | 10–4** | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |
| **Y parcdir** | | | | | | | | |
| Ar agor gydol y flwyddyn | | | | | | | | |
| O wawr hyd fachlud | | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

*Yr ardd: yn agor 30 munud yn gynt ac yn cau 30 munud yn hwyrach; y tŷ: mynediad olaf 45 munud cyn amser cau.
**Y caffi: archebion olaf 30 munud cyn amser cau.
††Y caffi ar gau 24 hyd at 26 Rhagfyr.

# Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd

Quay Hill, Dinbych-y-pysgod,
Sir Benfro SA70 7BX

1937

Dros 500 mlynedd yn ôl, pan oedd Dinbych-y-pysgod yn borthladd masnachu prysur, adeiladodd masnachwr y tŷ tri llawr hwn i fyw ynddo a masnachu ohono. Mae'r adeilad wedi'i ddodrefnu â dodrefn replica wedi'u cerfio'n gain a chroglenni lliwgar sy'n ail-greu awyrgylch bywyd yn Ninbych-y-pysgod yn Oes y Tuduriaid. Mae yno libart bychan gyda pherlysiau a blodau. **Sylwch**: dim toiled, yn anffodus.

**Parcio**: dim ar y safle. Sawl maes parcio talu ac arddangos cyhoeddus, ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (codir tâl, gan gynnwys ar aelodau).

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu tudormerchantshouse@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/tudor-merchants-house**

| Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 Chwe–2 Maw | 11–4 | · | · | · | **I** | · | **S** | · |
| 5 Maw–24 Med | 11–4 | · | **M** | · | **I** | · | **S** | · |
| 26 Med–2 Tach | 11–4 | · | · | · | **I** | · | **S** | · |

# Y Carneddau a'r Glyderau

Nant Ffrancon, Bethesda, Gwynedd

1951

Ardal fynyddig sy'n ymestyn dros 21,000 erw ac yn cynnwys Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal a Bwthyn Ogwen, canolfan awyr agored sy'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth â'r Outward Bound Trust. Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal yn enwog am ei daeareg a'i phlanhigion Arctig-Alpaidd, megis lili'r Wyddfa, sy'n blanhigyn prin. Ceir wyth o ffermydd tenant ar yr ucheldir yma a naw copa sy'n uwch na 3,000 troedfedd, gan gynnwys Tryfan, lle y bu Edmund Hillary yn hyfforddi cyn iddo ddringo Everest. Mae'r ardal yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys dyfrgwn, merlod gwyllt ac adar prin, megis mwyalchen y mynydd a llinos y mynydd. Mae'r 60 milltir o lwybrau cerdded yn denu mwy na 500,000 o gerddwyr bob blwyddyn, ac mae'r tirweddau llwm, ffotogenig yn boblogaidd ymhlith arlunwyr. **Sylwch**: dewch ag offer ac eitemau addas gyda chi ac edrychwch beth yw rhagolygon y tywydd. Mae ffioedd maes parcio'r Parc Cenedlaethol yn berthnasol (gan gynnwys i aelodau).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL57 3LZ. **Parcio**: ger Llyn Ogwen, ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (codir tâl – gan gynnwys ar aelodau).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – croesewir cŵn ar dennyn. Byddwch yn ymwybodol o'r da byw a'r bywyd gwyllt, megis adar sy'n nythu ar y tir.

**Am ragor o wybodaeth**: 01248 605739 neu carneddau@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/carneddau-and-glyderau**

# Y Cymin

Trefynwy, Sir Fynwy NP25 3SF

1902

Roedd yr Arglwydd Nelson a'r Arglwyddes Hamilton wedi dotio at y golygfeydd panoramig o Fannau Brycheiniog a Dyffryn Gwy o'r Cymin pan ymwelsant â'r tŷ gwledda Sioraidd hwn a Theml y Llynges ym 1802. Ceir llwybrau cerdded hyfryd drwy'r coed, ac mae'r parciau difyrion yn berffaith ar gyfer picnic. **Sylwch**: dim toiled, yn anffodus. Mynediad at y maes parcio ar hyd lôn sengl droellog, serth gyda mannau pasio. Mae'r Tŷ Crwn bellach yn fwthyn gwyliau.

**Parcio**: cyfyngedig ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn ar dennyn byr ar y tiroedd.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01874 625515 neu kymin@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/kymin**

| Y Cymin |
|---|
| Y tir ar agor o wawr hyd fachlud. |

# Ysbyty Ifan

ger Dinas, Betws-y-coed, Conwy

1951

Ysbyty Ifan yw'r ystad unigol fwyaf dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac mae'n ymestyn dros fwy na 19,768 erw o dirwedd amrywiol, gyda rhostir agored gwyllt, dyffrynnoedd afon a 51 o ffermydd mynydd. Mae Ystad Ysbyty yn ymestyn ar draws prif rannau tri dyffryn afon, gan gynnwys rhan uchaf dyffryn Conwy, cwm Eidda a rhannau o ddyffryn Machno. **Sylwch**: siopau a chaffis agosaf ym Metws-y-coed a Phentrefoelas; toiledau agosaf yn y pentref (ddim yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL24 0HF. **Parcio**: mannau parcio agosaf ym mhentref Ysbyty Ifan, ar ddwy ochr y bont.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn ar dennyn (byddwch yn ymwybodol o dda byw a bywyd gwyllt).

**Am ragor o wybodaeth**: 01766 510120 neu ysbytyifan@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/ysbyty-ifan**

# Ystad Dolmelynllyn

Ganllwyd, ger Dolgellau, Gwynedd

1936

Mae'r ystad 1,719 erw hon yn cynnwys coetir, dwy fferm denant a Phlas Dolmelynllyn, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, ynghyd â llyn addurniadol a pharcdir. Ceir rhwydwaith o lwybrau, gyda'r uchafbwyntiau'n cynnwys y Rhaeadr Ddu drawiadol, adfeilion mwyngloddiau aur Cefn Coch a choedwigoedd derw sy'n doreithiog o fywyd gwyllt. **Sylwch**: Mae gwaith atgyweirio adeileddol sylweddol ar y gweill ym Mhlas Dolmelynllyn, ond mae'r llwybrau cerdded o gwmpas y safle yn parhau ar agor.

**Llywio â lloeren**: defnyddiwch LL40 2TF. **Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Croesewir cŵn ar dennyn (efallai y bydd da byw o gwmpas).

**Am ragor o wybodaeth**: 01341 440238 neu dolmelynllyn@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/dolmelynllyn-estate**

# Ystad Southwood

Niwgwl, Y Garn, Sir Benfro

2003

Mae Ystad Southwood yn dirwedd fythol o ddyffrynnoedd coediog, caeau a chlogwyni garw, ac yn llawn rhyfeddodau. Ceir llwybrau cerdded ag arwyddbyst i'ch helpu i archwilio'r gorau sydd gan yr arfordir a'r ardal wledig i'w cynnig yn y lle arbennig hwn; a gallwch weld fflora a ffawna ar hyd y ffordd. **Sylwch**: mae angen mynd drwy fferm weithiol i gyrraedd y llwybrau ag arwyddbyst.

**Llywio â lloeren**: ar gyfer maes parcio Fferm Southwood, defnyddiwch SA62 6AR; ar gyfer maes parcio Maidenhall, defnyddiwch SA62 6BD. **Parcio**: ar y safle.

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – mae croeso i gŵn ar dennyn. Byddwch yn ymwybodol o dda byw.

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu southwoodestate@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/southwood-estate**

# Ystad Ystagbwll

ger Penfro, Sir Benfro

1976

Hen ystad fawreddog sy'n ymestyn i lawr i arfordir hardd yw Ystad Ystagbwll. Mae'n Warchodfa Natur Genedlaethol, sy'n cael ei chydnabod am ei fflora a'i ffawna. Mae'r llynnoedd yn enwog am eu sioe fendigedig o lilïau, a'r dyfrgwn sy'n trigo yno; ac mae clogwyni dramatig Penrhyn Ystagbwll yn wych ar gyfer gwylio bywyd gwyllt. Yng Nghanolfan Ystagbwll, sy'n ystyriol o'r amgylchedd, mae lle i hyd at 139 o westeion ac mae yno theatr, lle ar gyfer cyfarfodydd ac ystafell ddosbarth. Mae'n ddelfrydol ar gyfer grwpiau, cleientiaid corfforaethol, dathliadau a gwyliau teuluol. **Sylwch**: Gardd Furiog – yn cael ei rhedeg gan Mencap Sir Benfro.

**Llywio â lloeren**: ar gyfer Cei Ystagbwll, defnyddiwch SA71 5LS; De Aberllydan, SA71 5DR; Llynnoedd Bosherston, SA71 5DR; Llys Ystagbwll, SA71 5DE. **Parcio**: meysydd parcio yng Nghei Ystagbwll, De Aberllydan, Llynnoedd Bosherston a Llys Ystagbwll. Man gwefru cerbydau trydan yng Nghanolfan Ystagbwll (SA71 5DQ) a Chei Ystagbwll (SA71 5LS).

**Sgôr ôl pawen**: **Safonol** – Mae croeso i gŵn o dan reolaeth agos. Oherwydd bod cymaint o fywyd gwyllt a da byw ar yr ystad, efallai y bydd angen ichi ddefnyddio tennyn weithiau.

**Mynediad**:

**Am ragor o wybodaeth**: 01646 623110 neu stackpole@nationaltrust.org.uk
**nationaltrust.org.uk/stackpole**

| Ystad Ystagbwll | | Ll | M | M | I | G | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Ardd Furiog*** | | | | | | | | |
| 25 Maw–3 Tach | 10–5** | **Ll** | **M** | **M** | **I** | **G** | **S** | **S** |

Mae'r ystad ar agor bob dydd drwy gydol y flwyddyn.
*Mencap Sir Benfro sy'n rhedeg yr ardd furiog.
**Mae amseroedd agor y gaeaf yn amrywio (ffoniwch 01646 661442)

# Mynegai


## A

Aberdulais 3
Abereiddi i Abermawr 3

## B

Bae Barafundle 3
Bannau Brycheiniog 3

## C

Castell a Gardd Penrhyn 4
Castell a Gardd Powis 4
Castell Cilgerran 5
Castell y Waun 5
Castell Ynysgynwraidd 6
Cei Ystagbwll 6
Cemaes i Lanbadrig 7
Cemlyn 7
Coed Môr 7
Craflwyn a Beddgelert 8
Cregennan 8
Cwmtydu i Geinewydd 8

## D

De Aberllydan 9
Dinas Dinlle 9
Dinas Oleu 9
Dinefwr 10
Dolaucothi 10
Dolydd Lan-y-lai 11

## E

Erddig 11

## F

Freshwater West a Fferm Gupton 12

## G

Gardd Bodnant 12
Gardd Goetir Colby 13
Gerddi Dyffryn 13
Glan Faenol 14
Gwesty a Sba Neuadd Bodysgallen 14

## H

Hafan Marthin 14
Hafod 15
Hafod y Llan 15

## Ll

Llanerchaeron 15

## M

Morfa a Nant Bach 16
Mwnt 16
Mynydd Mawr a Braich y Pwll 17

## P

Pen y Gogarth 17
Pen-caer i Aberteifi 17
Pen-y-fâl, Ysgyryd Fawr a Dyffryn Wysg 18
Penbryn 18
Pennard, Pwll-du a Dyffryn Llandeilo Ferwallt 19
Penrhyn Dewi, a Chanolfan Ymwelwyr a Siop Tyddewi 19
Pistyll 20
Plas yn Rhiw 20
Pont Grog Conwy 20
Porth Dafarch 20
Porth Dinllaen 21
Porth Meudwy 21
Porth y Swnt 21
Porthclais 22
Porthor 22

## Rh

Rhosili ac Arfordir De Gŵyr 22

## S

Segontium 23
Sgwd Henrhyd 23

## T

Traeth a Chors Marloes 23
Traeth Llanbedrog 24
Tŵr Paxton 24
Tŷ a Gardd Plas Newydd 24
Tŷ Mawr Wybrnant 25
Tŷ Tredegar 26
Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd 26

## Y

Y Carneddau a'r Glyderau 27
Y Cymin 27
Ysbyty Ifan 28
Ystad Dolmelynllyn 28
Ystad Southwood 28
Ystad Ystagbwll 29

Mae adran Cymru hefyd ar gael yn y Gymraeg. Os ydych yn dymuno cael copi, gallwch lawrlwytho pdf yma: **nationaltrust.org.uk/handbook-welsh**

Gallwch hefyd e-bostio **wa.customerenquiries@nationaltrust.org.uk** neu ysgrifennu at Swyddfa'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Castell Penrhyn, Bangor, Gwynedd LL57 4HT.

This Wales chapter is also availablein Welsh. If you'd like a copy, you can download a pdf from **nationaltrust.org.uk/handbook-welsh**

You can also email **wa.customerenquiries@nationaltrust.org.uk** or write to National Trust Office, Penrhyn Castle, Bangor, Gwynedd LL57 4HT.